**Y Pwyllgor Diwylliant - CC-18-01(p.5)**

**Dyddiad:** 21 Tachwedd 2001
**Amser:** 9.00am - 12.30pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynullad Cenedlaethol

**DRAFFT O FLAEN RAGLEN WAITH STRATEGOL Y PWYLLGOR – RHAGFYR 2001 – GORFFENNAF 2003**

**Y mater**

1. Ceisio barn y Pwyllgor ar y blaen raglen waith strategol ar ei ffurf drafft.

**Cefndir**

2. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglen waith gylchynol sy’n cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf, ac i ymgynghori â Phwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad ynghylch y rhaglen cyn hysbysu’r Cyfarfod Llawn.

3. Mae Panel y Cadeiryddion wedi cytuno y dylai rhaglenni gwaith y pwyllgorau fod yn rhai strategol ac y dylent gwmpasu amserlen 18 mis – 2 flynedd, ynghyd â rhaglenni gwaith manylach yn ymwneud â chyfnod 3 mis.

**Nodau ac amcanion**

4. Mae’r Pwyllgor wedi penderfynu canolbwyntio ar y meysydd datblygu polisi hynny lle gallant gael mwyaf o effaith. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ceisio cyfrannu at gyflawni’r nodau a’r amcanion a nodir yn *Gwell Cymru*, cynllun strategol y Cynulliad, yn enwedig:

- hybu dinasyddiaeth weithgar, creadigrwydd ac entrepreneuiaeth;
  codi proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru a’i sefydlu fel lle o’r radd flaenaf i fyw, astudio, ymweld â hi a chynnal busnes ynddi;
  ehangu’r mynediad i ac ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg, a diwylliant, treftadaeth a chyfleoedd chwaraeon Cymru.

**Blaenoriaethau**


Bydd y Pwyllgor yn ceisio datblygu dull strategol o ymdrin â’i waith, gan ganolbwyntio yn fanylach ar nifer fechan o flaenoriaethau:

- gorffen ei adolygiad polisi ar yr iaith Gymraeg
- cyflawni adolygiad polisi yn ymwneud â chwaraeon.

5. Dylai’r adolygiadau polisi hyn gadw’r Pwyllgor yn brysur tan ddiwedd 2002. Bydd y blaenoriaethau ar gyfer dechrau 2003 yn cael eu hystyried yn ystod tymor yr hydref.

**Materion eraill**

6. Bydd materion busnes eraill y Pwyllgor yn cynnwys:

- adolygiadau perfformiad rheolaidd y Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sy’n rhan o’i gylch gwaith (Rheol Sefydlog 9.7(iii));
- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8(ii));
- ystyried is-ddeddfwriaeth fel bo’n briodol (Rheolau Sefydlog 9.8(I) a 22);
- craffu ar waith Ysgrifennydd y Cynulliad  (Rheol Sefydlog 9.11).

7. Amgaeir rhaglen waith fanwl ar gyfer y cyfnod Rhagfyr 2001 – Gorffennaf 2003 yn Atodiad A.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Tachwedd 2001**

**ATODIAD A**

**Y PWYLLGOR DIWYLLIANT: BLAEN RAGLEN WAITH (CYNHELIR Y CYFARFODYDD YN ADEILAD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL ONI NODIR YN WAHANOL)**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 5 Rhagfyr | 1 | Adolygiad y pwyllgor ar yr iaith Gymraeg: trafodaeth ac adroddiad cynnydd |
| | 2 | Adroddiad y Gweinidog |
| | 3 | Trafodaethau gyda chynrychiolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru |
| | | |
| Dydd Mercher 9 Ionawr 2002 | 1 | Adolygiad y pwyllgor ar yr iaith Gymraeg<br>Tystiolaeth gan:<br>BBC Cymru<br>S4C<br>Golwg<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>Mercator<br>Cylch yr Iaith |
| | 2 | Adroddiad y Gweinidog |
| | | |
| Dydd Iau 17 Ionawr (pm) | 1 | Adolygiad yr Iaith Gymraeg: sesiwn ar y cyd â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o bosibl (i'w gadarnhau) |
| | | |
| Dydd Mercher 23 Ionawr<br>**CYLCHDAITH ADOLYGIAD** | 1 | Adolygiad y pwyllgor ar yr iaith Gymraeg<br>Tystiolaeth gan:<br>Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |

| | | |
|---|---|---|
| **YR IAITH GYMRAEG** (Canolfan Gelfyddydau Muni, Pontypridd) | | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru<br>Menter a Busnes<br>Cynllun Gwobr Dug Caeredin<br>Mr Roy Thomas<br>[Imaginet] |
| Dydd Mercher 6 Chwefror<br>**CYLCHDAITH ADOLYGIAD YR IAITH GYMRAEG** (Cwm Gwendraeth, lleoliad i'w drefnu) | 1 | Adolygiad y pwyllgor ar yr iaith Gymraeg<br>Tystiolaeth gan:<br>Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru<br>Iaith Cyf<br>Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Mentrau Iaith<br>[Ysgolion lleol]<br>Eraill i'w trefnu |
| Dydd Mercher 27 Chwefror | 1 | Adolygiad ar yr Iaith Gymraeg: Sesiwn olaf gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ac academyddion) |
| | 2 | Adroddiad y Gweinidog |
| Dydd Iau 7 Mawrth (pm) | | Slot ychwanegol posibl ar gyfer trafodaeth ddechreuol/trafod sgôp yr Adolygiad Polisi Chwaraeon |
| Dydd Mercher 13 Mawrth | 1 | Adolygiad yr Iaith Gymraeg: Trafod a dadansoddi |
| | 2 | Trafodaeth gyda TGCh ynghylch materion darlledu |
| | 3 | Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru: ymgynghoriad ar arddangos celf |
| **GWYLIAU'R PASG** | | |
| Ebrill - Gorffennaf 2002 | 1 | Gorffen yr Adolygiad Polisi ar yr Iaith Gymraeg |
| | 2 | Dechrau ar yr Adolygiad Polisi Chwaraeon |
| | 3 | Cyfarfod â Chyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (8) |
| **GWYLIAU'R HAF** | | |
| Hydref - Rhagfyr 2002 | 1 | Gorffen yr Adolygiad Polisi Chwaraeon |
| | 2 | Dechrau ar yr Adolygiad Polisi (x) |

Eitemau eraill:

Yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, bydd Fforwm Crefft Cymru yn cyflwyno cyflwyniad i'r Pwyllgor hefyd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Tachwedd 2001**